Cyfansoddiad a gweithrediad Bwrdd Ysgol y Gymraeg mewn perthynas â Moeseg Ymchwil a rôl Swyddog Moeseg Ymchwil yr Ysgol

SWYDDOG MOESEG YMCHWIL YR YSGOL

Cylch Gorchwyl

Ar gais y Brifysgol mae Pennaeth yr Ysgol wedi dynodi Swyddog Moeseg Ymchwil yr Ysgol i fod yn gyfrifol am reoli materion moeseg mewn ymchwil yn yr Ysgol. Enw'r swyddog hwnnw yw'r **Athro Colin H. Williams**. Mae cyfrifoldebau penodol Swyddog Moeseg Ymchwil yr Ysgol fel a ganlyn:

1. sicrhau bod mecanweithiau effeithiol i ddod ag unrhyw bolisi, canllawiau neu weithdrefnau a ddatblygwyd gyda neu drwy Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol a Bwrdd yr Ysgol (BY) i sylw'r staff a'r myfyrwyr mae'r Ysgol yn gyfrifol amdanynt. Bwriedir i'r mecanweithiau hyn ei gwneud hi'n eglur ei bod yn ofyniad gan y Brifysgol fod y polisïau, canllawiau a gweithdrefnau hyn yn cael eu dilyn;
2. parhau i adolygu materion moeseg mewn ymchwil yr Ysgol;
3. rheoli a monitro'r gweithdrefnau yn ymarferol;
4. cynghori staff yr ysgol parthed materion moeseg ymchwil (dylai'r myfyrwyr gael eu cynghori'n bennaf gan eu goruchwyliwr);
5. rhoi'r ymateb cyntaf i unrhyw gwynion fod gwaith ymchwil a wneir naill ai 1) heb ei gymeradwyo gan BY, neu 2) heb ei gynnal yn unol â'r cynnig a gymeradwywyd gan BY;
6. sicrhau bod cofnodion addas o gymwysiadau, arferion a phenderfyniadau yn cael eu llunio a'u cadw;
7. adrodd i Bennaeth yr Ysgol fel bo'n briodol;
8. adrodd i'r Ysgol drwy fforwm briodol;
9. adrodd yn flynyddol ar ran yr Ysgol i Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol;
10. cynnal arolwg bob tair blynedd o weithdrefnau moeseg yr Ysgol ac adrodd am y canlyniad wrth Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol;
11. bod yn gymwys am aeoldaeth o Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol sy'n gofyn am fynychu cyfarfodydd Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol ac ymdrin â gwaith y Pwyllgor hwnnw.

BWRDD YR YSGOL (BY) A MOESEG YMCHWIL

Mae BY yn cynghori ar faterion moeseg mewn ymchwil yn yr Ysgol ac yn asesu cynigion ymchwil i'w cymeradwyo sydd a wnelont â chyfranogiad, deunydd neu ddata ymchwil dynol.

Cylch Gorchwyl

Cylch Gorchwyl BY ynghylch Moeseg Ymchwil yw:

1. ystyried cynigion ymchwil anghlinigol (gan staff a myfyrwyr yr Ysgol fel ei gilydd) sydd a wnelont â chyfranogiad dynol. Deunydd dynol neu ddata dynol;
2. rhoi naill ai gymeradwyaeth ysgrifenedig i gynigion o'r fath ar ffurf cofnodion neu ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig am resymau pam na roddwyd cymeradwyaeth;
3. ystyried cyflwyniadau wedi eu hadolygu;
4. trafod unrhyw gwynion â'r ymchwilydd a gyfeirir at y Bwrdd gan swyddog Moeseg Ymchwil yr Ysgol sy'n honni bod gwaith ymchwil yn cael ei wneud sydd naill ai 1) heb ei gymeradwyo gan BY, neu 2) heb ei gynnal yn unol â'r cynnig a gymeradwywyd gan BY; a phenderfynu a ddylid cyfeirio'r mater at Bennaeth yr Ysgol neu'r Dirprwy Is-Ganghellor dros Ymchwil;
5. cyfeirio at Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol achosion na ellir eu datrys yn foddhaol neu rai mae ansicrwydd yn eu cylch;
6. gweithredu gweithdrefnau sydd heb fod yn llai trwyadl na'r rhai a argymhellir neu sy'n ofynnol gan gyrff proffesiynol perthnasol neu gyrff eraill ym myd y pwnc

(e.e. cyrff ariannu).
7. datblygu canllawiau ar gyfer ymdrin â phrosiectau myfyrwyr;
8. hysbysu Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol am unrhyw newidiadau yng nghodau moeseg cyrff proffesiynol yn y meysydd disgyblaeth perthnasol, er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau'r Brifysgol yn parhau'n ddilys.

Aelodaeth a chefnogaeth weinyddol

Mae BY yn cynnwys aelodau amser llawn o'r staff academaidd (12) gan gynnwys y Swyddog Moeseg Ymchwil. Gall staff ymchwil eraill yr Ysgol ei fynychu ar gyfer eitemau anghyfyngedig yn unig.

Ar ben hyn bydd gan BY, at ddibenion Moeseg Ymchwil, un aelod nad yw'n aelod o Ysgol y Gymraeg ond sy'n aelod o staff academaidd Prifysgol Caerdydd. Yr aelod hwnnw yw **Huw Thomas, CPLAN**. Hefyd bydd gan BY un aelod lleyg nad yw'n weithiwr i'r Brifysgol a bydd ei swyddogaeth yntau'n ymwneud â materion Moeseg Ymchwil mewn modd tebyg. Yr aelod lleyg cyfredol yw **Dr Jeremy Evas, Bwrdd yr Iaith Gymraeg.**

Penodir yr holl aelodau gan Bennaeth yr Ysgol.

Mae'r **Athro Colin Williams** yn gweithredu fel Cadeirydd y Bwrdd

Bydd Pennaeth yr Ysgol yn penodi Ysgrifennydd ar gyfer BY o blith y staff gweinyddol. Bydd ef/hi yn gyfrifol am y gefnogaeth weinyddol sydd angen ar BY.

Cyfarfodydd

Mae BY yn cwrdd yn rheolaidd, ac mae dyddiadau'r cyfarfodydd ar gael yn Swyddfa'r Ysgol a chânt eu cyhoeddi ar wefan yr Ysgol.

Os bernir ar y cychwyn fod cynnig yn amhroblemus gan y Cadeirydd, gall BY ystyried y cynnig ar y papurau heb gael cyfarfod, oni bai bod un o aelodau eraill BY neu'r ymchwilydd yn gofyn am gyfarfod.

Gellir cyflwyno cynigion gerbron BY cyn gwneud cais am ariannu os oes ar y corff ariannu dan sylw angen datganiad/penderfyniad gan BY, neu os oes rhaid i'r ymchwil ddechrau yn syth wedi sicrhau'r cyllid (e.e. cytundebau gwerthuso gan LCC).

Ym mhob achos arall dylid cyflwyno cynigion fel arfer pan fydd y gwaith ymchwil yn mynd yn ei flaen, os ceir caniatâd BY.

Cworwm

Bernir bod gan gyfarfodydd gworwm os bydd saith aelod yn bresennol, gan gynnwys y Cadeirydd neu aelod a enwebir ganddo/ganddi yn absenoldeb y Cadeirydd.

Gweithdrefn penderfynu

Gwneir penderfyniadau BY drwy bleidlais fwyafrif gyda phleidlais fwrw gan y Cadeirydd.

Gweithdrefnau gweithredu eraill

Bydd BY yn darparu gwybodaeth ysgrifenedig am ei weithdrefnau a'i gylch gorchwyl i bob aelod perthnasol o'r Ysgol, a bydd yn cynnal ei waith yn unol â'i weithdrefnau cyhoeddedig.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer ystyried y materion moesegol fel a ganlyn:

1. Cyflwynir cynigion ymchwil sydd a wnelont â chyfranogwyr dynol, deunydd dynol neu ddata dynol i BY drwy ysgrifennydd y Bwrdd.
2. Er mwyn ei ystyried gan BY mae'n rhaid i'r cynnig ddod i law o leiaf bythefnos cyn cyfarfod o BY.
3. Bydd BY yn nodi'r fformat y dylid cyflwyno cynigion ynddo.
4. Gall BY sefydlu gweithdrefnau penodol ar gyfer prosiectau myfyrwyr.
5. Yn achos cynigion sydd a wnelont â chytundeb neu nawdd o'r tu allan, bydd gofyn i'r ymgeisydd ddwyn sylw BY at unrhyw gyfyngiadau ar ryddid academaidd a hawliau cyhoeddi mewn unrhyw gytundeb.
6. Bydd BY yn ystyried y cais yn unol â'r gweithdrefnau a roddir gerbron yn y

ddogfen hon a'i hatodiadau. Bydd BY yn hysbysu'r ymgeisydd o'r penderfyniad ac unrhyw ddiwygiadau fydd angen eu gwneud neu o'r rhesymau dros beidio â chymeradwyo'r ymchwil.

7. Os na chaiff y cais ymchwil ei gymeradwyo gan BY gall yr ymgeisydd wneud apêl am y penderfyniad drwy BY i Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol.

8. Bydd Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol, naill ai fel y corff adolygu cychwynnol neu ar apêl, yn dilyn y gweithdrefnau a gyflwynir yn y ddogfen '*Cyfansoddiad a Gweithrediad Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol*'.

Bydd cofnodion llawn o benderfyniadau BY yn cael eu llunio. Cedwir y cofnodion hyn gan yrYsgrifennydd.

Bydd unrhyw ymgeiswyr am gymeradwyo prosiectau (neu eu goruchwylwyr) yn gadael cyfarfod BY pan drafodir eu hachos, ac ni fyddant yn cymryd rhan mewn unrhyw benderfyniad ar y cais. Os bydd mwy nag un aelod yn gorfod gadael oherwydd yr ystyried ar gynnig penodol bydd y Cadeirydd neu, yn ei absenoldeb ef/hi, Bennaeth yr Ysgol, yn gallu enwebu aelodau ad hoc i ystyried y cynnig penodol hwnnw.